# MEMORANDWM GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2010

## Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Drafft ynglŷn â chynghorau cymuned a recriwtio, cadw a lwfansau cynghorwyr

**Cyflwyniad**

1. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) yn rhoi'r pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad") i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai Deddf Seneddol ei gwneud (ac o'r herwydd gall addasu deddfwriaeth bresennol a gwneud darpariaeth newydd), yn unol â'r cymhwysedd a roddir i'r Cynulliad ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 2006.

2. Drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor yw’r ddogfen sydd ynghlwm. Mae'n estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy fewnosod nifer o faterion yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Gellir gwneud y Gorchymyn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn dilyn cymeradwyo drafft o'r Gorchymyn gan y Cynulliad a chan ddau Dŷ’r Senedd. Yn y Memorandwm hwn, cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (“GCD”).

3. Paratowyd y memorandwm hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (“Llywodraeth y Cynulliad”). Mae'n esbonio cefndir a chynnwys yr GCD drafft.

4. Bydd pwerau deddfwriaethol newydd mewn perthynas â'r materion penodedig yn galluogi'r Cynulliad i basio Mesurau a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni yng Nghymru. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr ac yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan y Cynulliad.

**Y cefndir**

5. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 er mwyn cynnwys materion o dan faes 12 (llywodraeth leol) ynglŷn â'r canlynol:
   - llywodraeth leol ar lefel cymuned (mae'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym yn gyfredol yn darparu ar gyfer cyfarfodydd cymunedol a chynghorau cymuned a thref, y cyfeirir atynt yn enerig fel "cynghorau cymuned");
   - gwybodaeth gyhoeddus ynghylch llywodraeth leol ar gyfer cymunedau, siroedd a bwrdeistrefi sirol;
   - cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr mewn cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol ac i aelodau Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub; a
   - hybu a chefnogi aelodaeth cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol.

6. Mae'r cyd-destun ar gyfer cynnig Llywodraeth y Cynulliad yn deillio o dri adolygiad a'u hadroddiadau cysylltiedig i amgylchiadau cynghorau cymuned a chynghorwyr yng Nghymru.

7. Yn gyntaf, yr astudiaeth a wnaed yn 2003 gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth: Cyflwynodd Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear i gynghorau cymuned yng Nghymru ["Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol" ("Adroddiad Aberystwyth")] adolygiad cynhwysfawr o'r gweithgareddau a wneir gan gynghorau cymuned ledled Cymru. Canfu Adroddiad Aberystwyth y cyfyngiadau yr oedd cynghorau cymuned yn credu eu bod yn eu hwynebu a gosododd nifer o gynigion i wella rôl cynghorau cymuned, pe bai cyngor yn dymuno ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Daeth Adroddiad Aberystwyth hefyd i'r casgliad bod y gweithdrefnau presennol ar gyfer sefydlu cyngor cymuned yn rhy gyfyng a bod y rhai ar gyfer diddymu cyngor cymuned yn rhy lac. Argymhellodd Adroddiad Aberystwyth ymhellach y dylai Llywodraeth y Cynulliad archwilio mecanweithiau amgen posibl ar gyfer cyllido cynghorau cymuned a chynghorau tref yn uniongyrchol, a darparu cyllid ychwanegol drwy ddefnyddio grantiau uniongyrchol. Mewn ymateb ffurfiol i Adroddiad Aberystwyth (yn 2004), ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i geisio cael deddfwriaeth i fynd i'r afael â materion a nodir yn yr adolygiad, gyda'r bwriad o roi trefniadau ar waith i ddatblygu a chryfhau rôl y cynghorau cymuned a'u galluogi i gyflwyno ystod eang o wasanaethau a chamau yn lleol. Byddai hyn hefyd yn

cynyddu effeithiolrwydd rôl gynrychioli'r cynghorau cymuned a'u gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill.

8. Yn ail, yn Rhagfyr 2007 cyflwynwyd Adroddiad Comisiwn y Cynghorwyr "Cynrychioli'r Dyfodol" ("Adroddiad 2007") i Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU. Roedd Adroddiad 2007 yn cynnwys nifer o gynigion a luniwyd i gynorthwyo recriwtio mwy o ymgeiswyr ar gyfer llywodraeth leol a chynorthwyo gyda chadw cynghorwyr ar ôl iddynt gael eu hethol. Ym mis Mawrth 2008 sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad Banel Arbenigol Comisiwn y Cynghorwyr Cymru ("y Panel Arbenigol") i ystyried argymhellion Adroddiad 2007 a pha mor gymwys ydynt i Gymru ac i edrych ar faterion ehangach sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw cynghorwyr. Cyflwynodd y Panel ei adroddiad ("At ein gwasanaeth?") i Lywodraeth y Cynulliad, yn Awst 2009. Gwnaed cyfres o argymhellion yn yr Adroddiad, a oedd yn galw am weithredu ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a nifer o sefydliadau eraill, i symud y rhwystrau sy'n atal cynnydd yn amrywiaeth yr aelodau etholedig ar bob lefel o lywodraeth. Bu Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar adroddiad y Panel Arbenigol. Yn achos rhai o'r materion a godir yn yr adroddiad, bydd angen deddfu er mwyn cyflawni'r argymhellion perthynol. Bydd yr GCD yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu at y canlynol: monitro amrywiaeth cynghorwyr ac ymgeiswyr; hyfforddi a datblygu cynghorwyr presennol; gweithio oriau hyblyg i gynghorwyr; cefnogaeth weinyddol i gynghorwyr; ac atebolrwydd cyhoeddus cynghorwyr.

9. Yn drydydd, disgwylir y bydd adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel Annibynnol") yn dod i law yn ystod chwarter cyntaf 2010. Mae'r Panel Annibynnol yn adolygu strwythur taliadau i gynghorwyr yng Nghymru, gan gynnwys cyflogau, lwfansau a phensiynau sy'n daladwy i gynghorwyr. Gwnaeth adroddiad cychwynnol y Panel Annibynnol (Gorffennaf 2008) a'r adroddiad atodol (Rhagfyr 2008) amryw o argymhellion ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys, yn benodol, ceisio cymhwysedd deddfwriaethol dros daliadau i gynghorwyr.

10 Mae'r GCD a atodir wedi ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth y Cynulliad i geisio rhoi pwerau i'r Cynulliad i ddeddfu ynglŷn â'r meysydd a ddynodir gan yr adolygiadau.

**Y fframwaith deddfwriaethol cyfredol**

11. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") y system gyfredol o lywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr ac mae'n gwneud darpariaethau ynglŷn â threfn a swyddogaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys system o gymunedau yng Nghymru. Y bwrdeistrefi, y dosbarthau trefol a'r plwyfi gwledig yng Nghymru oedd yr ardaloedd hyn gynt, ac ar 1 Ebrill 1974, rhannau rhanedig penodol o ddosbarthau trefol oeddynt. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1972, i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, wedi eu

trosglwyddo, gyda rhai eithriadau, i’r Cynulliad ac fe’u breinir bellach yng Ngweinidogion Cymru. Ad-drefnwyd llywodraeth leol ymhellach o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae statudau eraill sy'n ymwneud â'r materion y mae'r GCD drafft yn mynd i'r afael â hwy yn cynnwys Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Deddfau Llywodraeth Leol 2000 a 2003 a Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a 1985. Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a 2003. Nid yw swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

12 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â llawer agwedd ar lywodraeth leol, fel a nodir ym maes 12 yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae’r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir i’r Cynulliad gan yr GCD hwn yn eangach na phwerau cyfredol Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Nid oes gan na’r Cynulliad na Gweinidogion Cymru y pŵer ar hyn o bryd i ddeddfu ar gyfer newidiadau sylweddol i’r gyfraith sy’n ymwneud â’r pynciau canlynol: cynghorau cymuned (cyfansoddiad, strwythur, gweithdrefnau a chyfrifoldebau), adolygiadau cymunedol, y gydberthynas rhwng haenau o lywodraeth leol, lwfansau i gynghorwyr (gan gynnwys swyddogaethau’r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, y cyfyngir arno gan reoliadau a wnaed yn 2007) a recriwtio a chadw cynghorwyr. Byddai’r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan yr GCD yn galluogi’r Cynulliad i wneud newidiadau i’r gyfraith yn y meysydd hyn drwy gyfrwng Mesur. Dadansoddir hyn yn fanylach yn y paragraffau isod sy'n nodi’r cynigion penodol.

**Cwmpas**

13. Cynigir mewnosod deg mater o dan faes 12: Llywodraeth Leol, yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi'r Cynulliad i ystyried deddfwriaeth ar y materion hyn drwy Fesurau Cynulliad.

14. Byddai erthygl 2 yn mewnosod materion 12.8 i 12.17 ym maes 12. Mae’r paragraffau canlynol yn disgrifio pob un o'r materion yn ei dro.

15. Byddai *mater 12.8* yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad dros gyfansoddiad, strwythur a gweithdrefnau cynghorau cymuned a thros gyfarfodydd cymunedol. Byddai hefyd yn rhoi cymhwysedd dros drefniadau o ran adolygiadau cymunedol. Pennir y darpariaethau cyfredol ynghylch y gweithgareddau hyn yn Rhan II a Rhan IV o Ddeddf 1972. Mae adrannau 27-29 o Ddeddf 1972 yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal cyfarfodydd cymunedol a'r camau ar gyfer sefydlu a diddymu cynghorau cymuned. Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau i’w galluogi i newid y rheolau ar gyfer galw cyfarfodydd cymunedol neu ar gyfer cynnal etholiadau cymunedol. Mae adran 55(2) o Ddeddf 1972 yn gosod dyletswydd ar bob prif gyngor yng Nghymru i gadw ei ardal gyfan o dan adolygiad cyson er mwyn ystyried a ddylid gwneud argymhellion i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru o ran

cyfansoddiad, diddymiad neu addasiad yn ardaloedd eu cymunedau. Byddai’r mater hwn hefyd yn rhoi cymhwysedd i’r Cynulliad dros gyfethol aelodau a chynrychiolwyr ieuenctid.

16. Byddai *mater 12.9* yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad dros drefniadau etholiadol ar gyfer cynghorau cymuned. Mae hyn yn cynnwys materion megis nifer y cynghorwyr y caniateir eu hethol; a ddylid rhannu cynghorau cymuned yn wardiau at ddibenion etholiadol ai peidio; ac adolygiadau o’r trefniadau hyn. Nid yw’r mater yn cynnwys yr etholfraint llywodraeth leol, y trefniadau ar gyfer cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadol, gan gynnwys cynnal etholiadau, a’r system bleidleisio a ddefnyddir mewn etholiadau cynghorau cymuned yng Nghymru.

17. Byddai *mater 12.10* yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i estyn i gynghorau cymuned yng Nghymru y pŵer i hybu neu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardaloedd. Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu pŵer i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth y maent o’r farn ei fod yn debygol o arwain at hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal. O ran Cymru, yr awdurdodau lleol y rhoddir iddynt y pŵer llesiant yn adran 2(1) o Ddeddf 2000 yw’r cynghorau sir a’r cynghorau bwrdeistref sirol yn unig.

18. Mae *mater 12.11* yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i wneud darpariaeth ynglŷn â grantiau gan Weinidogion Cymru i gynghorau cymuned. Derbynnir y rhan helaethaf o incwm cyngor cymuned drwy gyfrwng praesept treth gyngor o dan adran 41 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Gall rôl cynghorau cymuned sy’n rôl sy’n datblygu greu gofynion newydd ar eu cyllid ac argymhellwyd gan adroddiad Aberystwyth y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried darparu cyllid ychwanegol drwy ddefnyddio grantiau uniongyrchol.

.

19. Byddai *mater 12.12* yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i annog perthynas gynhyrchiol a chydweithredu rhwng cynghorau cymuned a rhwng cynghorau cymuned a phrif gynghorau (h.y. cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol). Ym mis Gorffennaf 2008, cyhoeddwyd *‘Cymuned ar y Cyd - Meithrin Cydberthynas a Siarteri ar gyfer Awdurdodau Unedol a Chynghorau Cymuned a Thref - Canllawiau Terfynol’* gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae’r ddogfen hon yn darparu arweiniad i hyrwyddo trefniadau cydweithredol, a gorfforid fel rheol mewn “siarter” y cytunid arni, a fyddai’n galluogi’r ddwy haen lywodraethol i gydweithio mewn ffordd sy’n cefnogi ei gilydd ac yn cydweithredu â’i gilydd er lles eu cymunedau. Yn gyfredol, gwirfoddol yw datblygu a mabwysiadu trefniadau cydweithredol/ siarteri, er bod Llywodraeth y Cynulliad yn cymell hynny’n gryf.

20. Byddai *mater 12.13* yn galluogi'r Cynulliad i roi mesurau ar waith er mwyn codi safonau llywodraeth leol gan gynghorau cymuned. Yn gyfredol, nid oes rhaglen genedlaethol i asesu pa mor gymwys yw

cynghorau cymuned yng Nghymru, yn wahanol i Loegr lle y mae Cynllun Ansawdd Cynghorau Plwyf a Thref, sef rhaglen genedlaethol ac iddi safonau a osodir gan randdeiliaid y cynllun, yn bodoli.

21. Byddai *mater 12.14* yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i annog tryloywder a chyfranogiad ehangach yn nhrafodion cynghorau cymuned. Mae adran 21(2)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 yn darparu, pan fo etholiad arferol o gynghorwyr cymunedol, bod nifer annigonol o bersonau wedi'u henwebu neu'n parhau i fod wedi'u henwebu'n ddilys i lenwi swyddi gwag, caiff y cyngor newydd gyfethol unrhyw berson neu bersonau i lenwi unrhyw swyddi gwag sydd ar ôl. Mae'n rhan o arferion da bod cyfleoedd ar gyfer cyfethol yn cael eu hysbysebu'n agored o fewn y gymuned leol. Mae hyn yn osgoi'r canfyddiad bod cynghorau cymuned yn 'siop gyfyngedig' ac mae'n rhoi cyfle i grwpiau a dangynrychiolir i allu cymryd rhan. Er hynny, nid oes unrhyw ofyniad ar hyn o bryd i hysbysebu swyddi gwag.

22. Byddai *mater 12.15* yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i annog mwy o atebolrwydd mewn llywodraeth leol, drwy'r wybodaeth a roddir i'r bobl leol gan brif gynghorau a chan gynghorau cymuned am eu gweithgareddau.

23. Byddai *mater 12.16* yn rhoi cymhwysedd dros faterion ynglŷn â chyflogau, lwfansau, pensiynau a thaliadau eraill i aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, cynghorau cymuned ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Ceir darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer talu cynghorwyr yn adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, adran 100 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliadau cefnogol. Mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn eglur o'r farn bod angen diwygio'r drefn o dalu lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i gynghorwyr. Mae'r Panel yn awr datblygu cynigion manwl, a bydd yn eu cyflwyno mewn adroddiad polisi a ddisgwylir y ystod chwarter cyntaf 2010

24. Byddai *mater 12.17* yn galluogi'r Cynulliad i wneud yn ofynnol bod prif gynghorau a chynghorau cymuned yn darparu gwell cefnogaeth ac amodau gwaith ar gyfer cynghorwyr wrth eu gwaith er mwyn cynorthwyo i recriwtio mwy o ymgeiswyr ar gyfer llywodraeth leol, a chadw cynghorwyr ar ôl iddynt gael eu hethol. Mae "Panel Arbenigol" Llywodraeth y Cynulliad wedi ystyried argymhellion Comisiwn Cynghorwyr Llywodraeth y DU ar recriwtio a chadw cynghorwyr ac wedi cyflwyno'i adroddiad yn Awst 2009. Bydd angen deddfu er mwyn cyflawni rhai o'r argymhellion, a byddai'r cymhwysedd hwn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn maes o law.

**Newidiadau i'r GCD yn dilyn craffu cyn deddfu**

25. Ymgymerwyd â chraffu cyn deddfu ar yr GCD arfaethedig gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgor materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi.

26. Roedd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn cefnogi egwyddorion cyffredinol yr GCD arfaethedig, a daeth i'r casgliad y byddai trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ym materion 12.8 i 12.17 yn fodd i wella democratiaeth leol ac ymgysylltiad â'r gymuned yng Nghymru.

27. Cofnodwyd rhai pryderon gan y Pwyllgor Deddfwriaeth ynghylch y posibilrwydd y byddai arfer y cymwyseddau a roddir gan fater 12.12, mater 12.13 a mater 12.15 hwyrach yn arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd, drwy greu disgwyliadau afrealistig ynglŷn â'r hyn y gall y cynghorau cymuned a'r cynghorau tref lleiaf ymgymryd ag ef a'i gyflawni. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y materion yn y ffurf y'u drafftiwyd, ac yn awgrymu y dylid ystyried amgylchiadau'r cynghorau lleiaf yn ofalus wrth ddatblygu Mesurau o dan y materion hyn.

28. Ar ôl cymryd i ystyriaeth awgrym y Pwyllgor Deddfwriaeth, sef y dylid ystyried amgylchiadau'r cynghorau lleiaf mewn perthynas â chynigion deddfwriaethol, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y byddai modd datblygu trefniadau cydweithredu/ siarteri, a alluogid gan ddarpariaeth o dan fater 12.12, heb achosi anawsterau gormodol i gynghorau cymuned bach. Prif ddiben y siarteri yw cytuno ar ffyrdd cydfuddiannol a chydweithredol o weithio. Ni fydd dirprwyo dyletswyddau'r prif gynghorau i'r cynghorau cymuned yn ofynnol nac yn rhagdybiedig o ganlyniad i'r siarteri. Bydd modd i'r siarteri, fodd bynnag, ddarparu fframwaith ar gyfer dirprwyo pan fo'n briodol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd o'r farn y byddai cynllun achredu gwirfoddol (mater 12.13), a ddatblygir mewn cydweithrediad â llywodraeth leol, yn rhoi hyder i'r cyhoedd ac i'r sefydliadau partner bod cyngor cymuned yn cyrraedd safonau penodol. Byddai hefyd yn gwella hunanhyder y cynghorau hynny, a'u hymdeimlad o awdurdod. Byddai rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Weinidogion Cymru yn y maes hwn yn eu galluogi i geisio pŵer i roi cefnogaeth statudol i gynllun o'r fath, pe baent yn canfod, wrth ddatblygu neu weithredu'r cynllun, y byddai hynny'n fuddiol.

29. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod galluoedd dyheadau cynghorau cymuned yn amrywio; bydd amgylchiadau pob cyngor yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu Mesurau yn y dyfodol.

30. Roedd y Pwyllgor materion Cymreig hefyd yn cefnogi'r GCD arfaethedig. Daeth i'r casgliad ei fod yn gyson â'r polisi, a gyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth o Cynulliad, o ddyrchafu galluoedd y cynghorau cymuned a thref, a bod defnyddio'r broses GCD yn briodol.

31. Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai enw'r GCD beri dryswch, ac y dylid rhoi enw iddo a fyddai'n cyfleu syniad eglurach i ddarllenwyr o'r hyn y mae'r GCD yn ymwneud ag ef. Cynigiodd y Pwyllgor "Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Cynghorau Cymuned)" fel dewis arall posibl. Ystyriodd Llywodraeth y Cynulliad bob un o'r posibiliadau, ond daeth i'r casgliad y dylid glynu

wrth y confensiwn y dylai teitl GCD gynnwys enw'r maes neu feysydd perthnasol mwyaf arwyddocaol. Yn yr achos hwn, "Llywodraeth Leol" yw'r ymadrodd mwyaf addas i'w gynnwys mewn cromfachau yn yr enw, gan fod yr GCD yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â nifer o wahanol faterion ynglŷn â llywodraeth leol. Bydd yr GCD yn rhoi pwerau i'r Cynulliad mewn perthynas â strwythurau a gwaith y ddwy haen o lywodraeth leol yng Nghymru (gweler paragraff 5 uchod).

32. Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor materion Cymreig ynglŷn â defnyddio'r gair "cymunedau" ("*communities*") yn yr GCD a'r Memorandwm Esboniadol, gan ei fod yn air a ddefnyddir mewn amryw o wahanol gyd-destunau.

33. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod y defnydd a wneir o'r gair yn yr GCD hwn yn briodol. Cyfyngir y diffiniad drwy ei gymhwyso yn unig wrth ymdrin â sefydliadau llywodraeth leol ar lefel y gymuned, ac y mae'n rhychwantu'r sefydliadau cymunedol hynny a ddisgrifir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 – hynny yw, cynghorau cymuned a thref a chyfarfodydd cymunedol. Drwy gynnwys y diffiniad hwn yn yr GCD, gwneir yn eglur bod cwmpas y cymhwysedd yn cyfeirio at feysydd ynglŷn â'r haen fwyaf lleol o lywodraeth leol yng Nghymru. Y cyfarfodydd cymunedol a gynhwysir yn y diffiniad yw'r rhai hynny, yn unig, a drefnir yn unol â darpariaethau Deddf 1972; ni fydd unrhyw gyfarfod arall a fydd yn ymdrin â materion cymunedol, ond nas trefnir yn unol â'r darpariaethau hynny, yn dod o fewn y diffiniad, ac felly byddai cyfarfod o'r fath y tu allan i gwmpas yr GCD. Mae Llywodraeth y Cynulliad, felly, yn ystyried bod defnyddio'r gair cymuned yn yr GCD yn gyson â'r modd y'i defnyddir yn Neddf 1972, ac y bydd yn cynorthwyo darllenwyr i weld y cysylltiad â'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf honno.

34. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth a chan y Pwyllgor materion Cymreig ynglŷn â'r ystod o dermau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r gwahanol haenau o lywodraeth leol yng Nghymru, ond mae o'r farn nad oes angen adolygu'n ffurfiol y nifer cymharol fach o dermau. Bydd yn ystyried yn ofalus y termau a ddefnyddir i ddisgrifio llywodraeth leol, wrth ddrafftio deddfwriaeth yn y dyfodol ac yn ei chyfathrebiadau, er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb.

35. Mae'r GCD drafft yn cynnwys newid pellach yn Atodlen 5, a wnaed er mwyn symleiddio'r drafftio. Mae materion 12.1, 12.6 a 12.7 ym Maes 12 (sef y maes llywodraeth leol) i gyd yn cynnwys diffiniad o "prif gyngor" ("*principal council*"). Yn yr GCD arfaethedig, diffinnir prif gyngor ar gyfer Maes 12 yn ei gyfanrwydd. Mae erthygl 2 o'r GCD drafft yn dileu'r diffiniad o dan y materion penodol er mwyn osgoi dyblygu diangen.

36. Daeth Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ’r Arglwyddi i’r casgliad nad oedd yr GCD yn codi unrhyw faterion o egwyddor gyfansoddiadol.

**Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad**

37. Byddai'r GCD drafft yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu drwy o ran Cymru. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn yr GCD drafft a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynglŷn â swyddogaethau awdurdodau lleol yn Lloegr.

**Swyddogaethau Gweinidogion y Goron**

26. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni all Mesur Cynulliad roi na gosod unrhyw swyddogaeth ar un o Weinidogion y Goron. Nid yw'r GCD drafft hwn yn ceisio datgymhwyso'r cyfyngiad hwn. Yn rhinwedd Rhannau 2 a 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaniateir i'r Cynulliad drwy Fesur ddileu neu addasu unrhyw swyddogaeth sydd gan Weinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, a byddid yn ceisio hynny, pe bai’n gymwys yn unol ag unrhyw Fesur a fydd yn deillio o’r GCD drafft hwn

**Y Casgliad**

27. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylai cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei estyn yn unol â darpariaethau'r GCD drafft y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud ag ef.